# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**


23/11/2020

## PWYSIG : At sylw rheini y meithrin a'r derbyn

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Fe'n hysbyswyd bod unigolyn yn ein hysgol wedi profi'n bositif am COVID-19. Hoffwemeich sicrhau nad oes unrhyw achos i bryderu ar hyn o bryd, ac fe ymdrechwn i roi cymaint o wybodaeth â phosibl i chi.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a GIG Cymru a'i rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu (TTP), ac rydym yn dilyn yr holl gyngor ac arweiniad a roddwyd i ni.

Nodwyd bod disgyblion ac aelodau staff yn nosbarthiadau'r **meithrin rhan amser, meithrin llawn amser a'r dosbarth derbyn** o bosibl wedi dod i gysylltiad agos â'r unigolyn sydd wedi profi'n bositif. **Rydym yn gofyn i ddisgyblion ac aelodau staff sydd yn y meithrin neu'r derbyn hunanynysu a gweithio gartref hyd nes y rhoddir gwybod iddynt y gallant ddychwelyd i'r ysgol.**. Byddaf i neu'r Tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â chi yn y 4 diwrnod nesaf i gadarnhau a oes angen hunanynysu am gyfnod o 14 diwrnod.

Os yw'n ofynnol i'ch plentyn hunanynysu, gall pawb arall o'r cartref barhau fel arfer a mynd i'r gwaith/ysgol (fodd bynnag, os bydd eich plentyn yn datblygu symptomau, yna byddai angen i'r cartref cyfan hunanynysu).

Mae'r broses hon o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd' a lle mae ysgolion yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm i bryderu.

Os bydd unrhyw achosion positif pellach, bydd yr holl ddiweddariadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa os byddwch chi, eich plentyn neu unrhyw un rydych chi'n byw gyda, yn dechrau arddangos y symptomau canlynol, bydd angen i chi gyd aros gartref a dilyn cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:

· Peswch parhaus newydd a/neu
· Tymheredd uchel
· Colli neu newid yn eich synnwyr arferol o flas neu arogl.

Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl y tu allan i oriau ysgol, gyda neu heb unrhyw un o symptomau COVID-19, neu os oes angen iddo hunanynysu, rhowch wybod i ni drwy ffonio Llesiant Delta ar 0300 333 2222 neu drwy anfon e-bost at TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn hysbysu'r ysgol ar eich rhan.

Yn ystod oriau ysgol ac am bob mater arall sy'n ymwneud ag iechyd, rhowch wybod i'ch ysgol yn uniongyrchol.

Os ydych chi neu'ch plentyn yn teimlo'n sâl a bod angen cyngor meddygol arnoch, ffoniwch GIG 111 neu ewch i'w gwefan 111.wales.nhs.uk, neu ffoniwch eich meddyg teulu lleol.

Mae'n bwysig ein bod ni gyd yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn cadw pellter cymdeithasol, parhau i olchi ein dwylo'n aml, a gwisgo gorchudd wyneb lle bo'r angen er mwyn atal lledaeniad y feirws cymaint ag y gallwn.

Gobeithiwn fod y wybodaeth yma o gymorth ac yn ddefnyddiol; gwerthfawrogwn y gall fod yn amser pryderus. Fel bob amser, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

***C Davies***
Pennaeth


CYMRU DROS HEDDWCH WALES FOR PEACE
Eco-Sgolion
International School Award
Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire's Healthy Schools Scheme
FAIRTRADE CYFLAWNI'N DEG